LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBL IFANC

LLWYDDO'N LLEOL 2050

ENW: Caitlin Jones

BRO: Saron, Sir Gâr

Gwaith ymarferol mewn Biocemeg

Mae Caitlin Jones o Saron ger Rhydaman wedi bod yn angerddol am wyddoniaeth ers blynyddoedd...

"Ro'n i'n chwilio am rywbeth a fyddai'n rhoi profiad go iawn i mi, nid dim ond rhywbeth damcaniaethol," meddai Caitlin.

"Roeddwn i eisiau gweld sut mae'r hyn rwy'n ei ddysgu yn y brifysgol yn cael ei ddefnyddio mewn sefyllfa broffesiynol."

Cafodd Caitlin y cyfle perffaith wrth dderbyn swydd haf fel cynorthwy-ydd labordy gyda Decus, cwmni sy'n cynnal profion dŵr, bwyd a phridd.

Sut mae Llwyddo'n Lleol wedi helpu?

"Daeth y swydd o gwmpas diolch i elfen Gyrfaol Llwyddo'n Lleol. Roedd yn brofiad gwych – dysgais dechnegau newydd ac fe wnes i ennill hyder yn y labordy. Mae'r cyfan wedi gwella fy hyder yn y labordy fel fy mod i'n hapus o wneud mwy o bethau fy hun.

"Mae'r profiad a ges i yno wedi bod yn wirioneddol werthfawr i mi. Ar ôl cael cyfle i roi fy ngwybodaeth sylfaenol ar waith rwy'n gallu edrych ar fy astudiaethau coleg o safbwynt mwy ymarferol a masnachol nawr."

Mae Caitlin hefyd wedi sylweddoli bod cyfleoedd gwerthfawr ar ei stepen drws. "Mae Llwyddo'n Lleol wedi dangos bod swyddi gwyddonol da yma yng Nghymru. Mae'n rhoi gobaith i bobol ifanc fel fi nad oes angen symud i ffwrdd i gael gyrfa lwyddiannus."

Roedd Decus hefyd yn falch o'i chyflogi: "Roedd hi'n frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu – union y math o dalent rydyn ni'n chwilio amdano. Roedden ni'n falch o allu cynnig y cyfle i rywun lleol sydd â'r potensial i ddod yn wyddonydd llwyddiannus yn y dyfodol."

Beth nesaf?

Mae Caitlin bellach yn ôl ym Mhrifysgol Warwick ac ar ganol ei hail flwyddyn yn astudio ar gyfer gradd mewn Biocemeg, ac mae'n cyfaddeg bod ymwneud â Llwyddo'n Lleol wedi rhoi hwb i'w dyfodol gwyddonol ac wedi agor drysau iddi.

ARFOR
CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government